# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| **ADRAN:** | Gwasanaethau Ar Ffiniau Gofal |
| **SWYDD:** | Gweithiwr Ymyriad Therapiwtig |
| **GRADD Y SWYDD:** | GR09 |
| **YN ATEBOL I'R:** | Dirprwy Reolwr Tîm Gwasanaethau Ar Ffiniau Gofal |

---

**DIBEN Y SWYDD:**

Darparu ymyriadau therapiwtig strwythuredig, tymor hwy i blant, pobl ifanc, a gofalwyr yn dilyn cyfnod o argyfwng neu darfu. Gan weithio fel rhan o dîm amlddisgyblaethol, sy'n ystyriol o drawma, bydd deiliad y swydd yn cyflwyno gwaith uniongyrchol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i hyrwyddo adferiad emosiynol, atgyweirio perthnasoedd, a sefydlogrwydd lleoliad hirdymor.
Bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd gyfrannu at amgylchedd sy'n ystyriol o seicoleg sy'n cefnogi adferiad o drawma, yn meithrin gwydnwch, ac yn cryfhau capasiti gofalwyr i ddiwallu anghenion cymhleth pobl ifanc sydd mewn perygl o gamfanteisio, lleoliadau yn chwalu, neu fynd i ofal.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Cyflwyno sesiynau therapiwtig strwythuredig, sy'n ystyriol o drawma i blant a phobl ifanc 10 oed a throsodd, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn gofal neu sydd ar ffiniau gofal.
- Cefnogi rheoleiddio emosiynol, ymlyniad, a gwydnwch drwy ddulliau sy'n cael eu llywio gan ddatblygiad a pherthnasoedd.
- Darparu cymorth therapiwtig parhaus i ofalwyr a theuluoedd, gan eu helpu i ddeall ymddygiad sy'n gysylltiedig â thrawma ac ymateb iddynt gan ddefnyddio strategaethau cyson, meithringar.
- Defnyddio amrywiaeth o dechnegau sy'n seiliedig ar dystiolaeth wedi'u teilwra i anghenion unigol, fel dulliau gwybyddol ymddygiadol, Seicotherapi Datblygiadol Dyadig (DDP), ac ymyriadau creadigol neu sy'n seiliedig ar chwarae.
- Lle y bo'n briodol, cyflwyno sesiynau ar y cyd â gofalwyr a phobl ifanc i gryfhau perthnasoedd, ymddiriedaeth, a chyfathrebu.
- Gweithio mewn partneriaeth â seicolegwyr clinigol, mynychu ymgyngoriadau a chyfrannu at fformiwleiddiadau seicolegol a chynlluniau ymyriad.

- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd amlasiantaethol i sicrhau cymorth cydgysylltiedig a phontio di-dor ar draws haenau gwasanaeth.
- Cadw cofnodion clir, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a chyfrannu at werthusiadau ac adolygiadau o gynnydd ymyriad.
- Mynychu goruchwyliaeth reolaidd, sesiynau ymarfer myfyriol, a chyfarfodydd tîm i gefnogi gwelliant parhaus a gwydnwch ymarferwyr.
- Cyfrannu at ddatblygiad ehangach ymarfer sy'n ystyriol o drawma o fewn y gwasanaeth Ar Ffiniau Gofal.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**GWIRIAD COFNODION TROSEDDOL (LLE Y BO'N BERTHNASOL)**

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Manyleb y Person

## Gweithiwr Ymyriad Therapiwtig

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol.

| Priodoleddau | Gofynion | Meini Prawf Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Addysgwyd i FfCCh (NVQ) Lefel 4 mewn maes perthnasol (e.e. Gofal Cymdeithasol, Seicoleg, Cwnsela, Gwaith Ieuenctid) neu'n gallu dangos profiad cyfwerth.<br>• Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus. | Ydy | Cyflwyno Tystysgrifau Cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a phrofiad** | • Profiad o weithio yn y sector iechyd, gofal cymdeithasol neu wirfoddol gyda phlant a phobl ifanc sy'n hysbys i adrannau gwasanaethau cymdeithasol.<br>• Profiad o ddatblygu ac ysgogi staff.<br>• Profiad o weithio ar draws adrannau/sectorau.<br>• Profiad o waith uniongyrchol gyda phobl i sicrhau newid cadarnhaol.<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferol o'r fframwaith deddfwriaethol a rheoliadol sy'n sail i waith gyda phlant a'u teuluoedd gan gynnwys gweithdrefnau ac arferion amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed gan gynnwys y System Derbyn Gofal.<br>• Profiad o weithio seiliedig ar dystiolaeth gyda phlant a theuluoedd a/neu gyflwyno rhaglenni rhianta seiliedig ar dystiolaeth.<br>• Profiad o adeiladu perthnasoedd gwaith adeiladol yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch o fewn ffiniau proffesiynol. | Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Ymrwymiad i ddysgu a datblygu parhaus wrth gymhwyso arferion plant a theuluoedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth.<br>• Gallu cyflwyno ymyriadau strwythuredig, sy'n seiliedig ar dystiolaeth i blant, pobl ifanc a'u gofalwyr.<br>• Ymrwymiad i ddysgu a datblygu parhaus wrth gymhwyso arferion plant a theuluoedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth.<br>• Gallu rheoli sefyllfaoedd sensitif sy'n heriol yn emosiynol ac ymdrin â hyn, gan gynnwys lle gall unigolion ymateb yn elyniaethus i gymorth.<br>• Gallu ymgysylltu'n bendant a defnyddio dull creadigol o gynnwys aelodau o'r teulu a allai fod yn wrthwynebol neu'n anodd eu cyrraedd.<br>• Gallu cynorthwyo teuluoedd i nodi meysydd ar gyfer newid a gweithredu strategaethau i wella canlyniadau a meithrin gwydnwch.<br>• Gallu gweithio'n effeithiol ac yn annibynnol o fewn tîm amlasiantaethol, rhannu gwybodaeth yn briodol a chydweithio â gweithwyr proffesiynol o amrywiaeth o gefndiroedd.<br>• Gallu rheoli gofynion amrywiol a chystadleuol, a gweithio'n dda o dan bwysau.<br>• Gallu dadansoddi a dehongli gwybodaeth a chyfathrebu'n glir ar lafar ac yn ysgrifenedig.<br>• Gallu gweithio o safbwynt seiliedig ar gryfderau, gwrthwahaniaethol.<br>• Yn gweithredu mewn modd hyblyg iawn, gan gynnwys boreau, nosweithiau a phenwythnosau fel sy'n ofynnol gan y gwasanaeth.<br>• Sgiliau trefnu a TG da. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol (parhad)** | • Ymarferydd myfyriol a gwydn, sy'n agored i oruchwyliaeth a datblygu proffesiynol.<br>• Trwydded yrru lawn ddilys y DU a mynediad at gerbyd at ddefnydd busnes.<br>• Ymrwymiad i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant a theuluoedd.<br>• Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |